**Polisi mynediad i`r ysgol**

**Nod:** Gweithredu trefn deg, a thryloyw ar gyfer mynediad.

**Dulliau gweithredu**

1. Mae gan Ysgol y Moelwyn ei dalgylch naturiol sef dalgylchoedd ysgolion cynradd:

   - Maenofferen, Blaenau Ffestiniog,
   - Manod,
   - Tanygrisiau,
   - Ysgol Edmwnd Prys, Gellilydan,
   - Ysgol Bro Cynfal, Llan Ffestiniog,
   - Ysgol Bro Hedd Wyn, Trawsfynydd.

2. Darperir ar gyfer pob disgybl o fewn y dalgylch yn y lle cyntaf.

3. Mae Pennaeth a staff yr ysgol yn ymwybodol o'r pryder sydd ym meddyliau rhai disgyblion wrth feddwl am drosglwyddo i ysgol uwchradd a byddwn yn gwneud pob dim posibl i sicrhau trosglwyddo effeithiol a hapus. Byddwn yn gwneud hwn trwy:

   - drefnu ymweliadau gan ddisgyblion ysgolion cynradd i Ysgol y Moelwyn,
   - wahodd y disgyblion a'u rhieni i Noson Agored yn yr ysgol,
   - ymweld â'r cynradd i ddod i adnabod y plant ac i gyfarfod eu rhieni,
   - anfon gwybodaeth i rieni.

4. Mae`r ysgol yn gweithredu Polisi Mynediad Awdurdod Addysg a Diwylliant Gwynedd a gellir cael mwy o wybodaeth am y polisi hwn yn llawlyfr Awdurdod Addysg Gwynedd o'r enw "Gwybodaeth i Rieni".

| |
|---|
| **Polisi Mynediad** |
| **Mabwysiadwyd ddiwethaf:** Corff Llywodraethol Ysgol y Moelwyn, $31^{ain}$ o Hydref 2025 |
| **Dyddiad mabwysiadu nesaf:** Tymor yr Hydref 2028 |
| **Llofnod Cadeirydd y Corff Llywodraethol:** |
| **Dyddiad:** |
| **Llofnod y Pennaeth:** |
| **Dyddiad:** |